# Gŵyl Gerdded Wrecsam 2024

## Dydd Sadwrn, Mehefin 1af - Dydd Sul, Mehefin 9fed

9 diwrnod o deithiau cerdded Am DDIM i brofi harddwch a chanfod hanes G.Dd Cymru

MAE'R TEITHIAU AM DDIM A DIM ANGEN TREFNU O FLAEN LLAW – DEWCH A MWYNHEWCH!



Cewch y wybodaeth ddiweddaraf a mwy o fanylion am y mannau cychwyn ac hefyd manylion am ein rhaglen rheolaidd o deithiau ar wefan

www.walksinwrexham.com

neu ebostiwch walkaboutwrexham@outlook.com

Fel arall cysylltwch â'r Ganolfan Croeso, Stryd Caer, Wrecsam LL13 8BE (01978-292015) tourism@wrexham.gov.uk

## Dydd Sadwrn, Mehefin 1af

**Taith 1**

14.2 milltir (23 c), esgyn 2800 tr (850 m) ........ Caletach

Taith gylchol 8 awr o **Glyndyfrdwy** ar hyd Llwybr Dyffryn Dyfrdwy i Langollen ac yna dychwelyd ar hyd llwybr Gogledd y Berwyn a thros mynydd Meifod. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 yn yr arosfan fawr ochr dde i'r A5, 5 milltir i'r gorllewin o Langollen a chyn cyrraedd Glyndyfrdwy (LL21 9HT Cyf: SJ 154 426 ///roofer.shadow.spearhead). Dim cŵn. Andy a Claudine yn arwain.

**Taith 2**

5-6 milltir (8-10 c), esgyn 820 tr (250 m) ........ Cymhedrol

Taith gylch 3-3.5 awr o amgylch **Brymbo** ar hyd llwybrau, drwy goedwig, caeau a phentrefi lleol i fwynhau golygfeydd hyfryd. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 ym maes parcio Canolfan Menter, Ffordd y Chwyth, Brymbo (LL11 5BT Cyf: SJ 295 537 ///spilled.completed.quietest). Dim cŵn. John I a Roger yn arwain.

**Taith 3 (Prynhawn)**

4.5 milltir (7.25 c), esgyn 500 tr (150 m) ........ Haws

Taith 2.5 awr ar hyd lonydd gwledig, addas ar gyfer pramiau cadarn a chadeiriau olwyn trydanol, o'r **Waun** i iatiau'r castell, ac yna ymlaen i Fron Isaf, lawr heibio Marina'r Waen ac yn ôl ar hyd llwybr y gamlas a thrwy'r twnel (angen torch!). Cyfarfod am 13.45 i gychwyn am 14.00 ym maes parcio (di-dâl) ger y Ganolfan Iechyd a thu ôl i westy'r Hand, oddi ar y B5070 yn y Waun (LL14 5DH Cyf: SJ 291 378 ///acid.majority.rebounder). Croesewir cŵn ar denyn. Val, Jeff a Betty yn arwain.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Sul, Mehefin 2il

**Taith 1**

7 milltir (11 c), esgyn 1300 tr (400 m) ........ Caletach

Taith 4 awr o **Lanferres** gan gychwyn drwy goedwig i esgyn i Fryn Alyn, gyda golygfeydd ymhob cyfeiriad, a mynd heibio Eryrys wrth ddychwelyd. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 yn yr arosfan fawr ar y A494 tua 0.5 milltir i'r de o Lanferres (CH7 5ST Cyf: SJ 187 597 ///hillsides.encrusted.blackbird). Dim cŵn. Roy a Claudine yn arwain.

**Taith 2 (Prynhawn)**

4 milltir (7 c), esgyn 650 tr (200 m) ........ Cymhedrol

Taith gylch 2-3 awr yn cynnwys rhai esgyniadau serth ar hyd lonydd a chaeau o **Goedpoeth** heibio Southsea a Tanyfron. Cyfarfod am 13.45 i gychwyn am 14.00 ym maes parcio cyhoeddus di-dâl oddi ar y Stryd Fawr, Coedpoeth gyferbyn â Fferyllfa Numark. (LL11 3SE Cyf: SJ 284 511 ///essays.incensed.reclined). Dim cŵn. Pat M a Rachel yn arwain.

**Taith 3 (Gyda'r Nos, caiff ei hail-adrodd ar ddydd Sul Mehefin 9fed)**

2 milltir (3.5 c) ........ Hawdd

Taith byr, hamddenol, gwastad o ddeutu 2 awr o gwmpas **Wrecsam** gan aros ambell waith i glywed hanes y ddinas ar sail llyfryn: "Wrexham Revealed: A Walking Tour with Tales of the City's History". Cyfarfod am 18.15 i gychwyn am 18.30 wrth y Gofeb Rhyfel gyferbyn â'r llyfrgell yn Bodhyfryd (LL12 7AD Cyf: SJ 336 506 ///button.dots.battle). Dim cŵn. Roz, Jenny C a John I yn arwain.

## Dydd Llun, Mehefin 3ydd

**Taith 1**

8.2 milltir (13.2 c), esgyn 1900 tr (580 m) ........ Cymhedrol

Taith gylchol 4.5 awr o **Lwynmawr** yn Nyffryn Ceiriog drwy goedwigoedd i Lwybr Clawdd Offa, i lawr at Felin y Castell, ar draws y B4500 ac yna dros y bryn ac yn ôl i Bontfadog. Cyfarfod am 9.15 i gychwyn am 9.30 ym maes parcio di-dâl Maes y Wern yng nghanol Llwynmawr (LL20 7BB Cyf: SJ 222 371 ///attitudes.flaunting.kennels). Dim cŵn. Chris a Marian yn arwain.

**Taith 2 (Gyda'r nos)**

5.5 milltir (9 c), esgyn 600 tr (180 m) ........ Cymhedrol

Taith 3 awr o gwmpas **Erbistock** gyda'r cyfle am luniaeth wedyn. Mae'r daith yn dilyn yr afon Ddyfrdwy ar hyd rhan o Lwybr Clawdd Wat, cyn cerdded drwy caeau a choedwigoedd a lonydd gwledig. Cyfarfod am 17.15 i gychwyn am 17.30 ym maes parcio ger tafarn y Boat yn Erbistock (LL13 0DL Cyf: SJ 355 413 ///fortified.active.bared). Dim cŵn. Hazel, Claudine a Jenny R yn arwain.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Mawrth, Mehefin 4ydd

**Taith 1**

9 milltir (14.5 c), esgyn 1200 tr (370 m) ........ Caletach

Taith **llinol** 5 awr o **Lysfasi i Rhuthun** ar ran o Lwybr Clawdd Offa gan ddefnyddio **trafnidiaeth gyhoeddus**. Mae'r daith yn cyfuchlinio rhai o Fryniau Clwyd cyn disgyn tuag at Lanfair Dyffryn Clwyd ac yna ymlaen i Rhuthun. Cyfarfod am 8.35 yng ngorsaf fysiau Stryd y Brenin, Wrecsam i ddal bws X51 tuag at Dinbych am 8.50, neu cwrdd â'r bws yng Ngholeg Llysfasi a pharcio yno. Cychwynir y daith y tu allan i'r Coleg wrth groesffordd A525/B5429 tua 9:40 pan gyrhaeddir y bws (LL15 2LD Cif: SJ 146 527 ///relaxing.teaches.sofas). Dim cŵn. Dermot a Claudine yn arwain.

**Taith 2**

5 milltir (8 c), esgyn 650 tr (200 m) ........ Cymhedrol

Taith 3 awr o **Chwarel y Mwynglawdd** yn mynd i gyfeiriad Llandegla a chael paned yn y Ganolfan Beicio cyn dilyn trywydd y Grugiar Ddu, dros y gweundir ac yn ôl drwy'r chwarel. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 o faes parcio'r chwarel (LL11 3DE Cyf: SJ 258 519 ///shunted.typically.toolbar). Dim cŵn. John I ac Alwyn yn arwain.

**Taith 3 (Prynhawn)** ........ Haws

**Sesiwn Blasu Cerdded Nordig** 1-2 awr i ymarfer technegau ac yna eu defnyddio ar daith. Cyfarfod am 13.45 i gychwyn am 14.00 ym maes parcio y Pafiliwn (Talu ac Arddangos) ar A542 (Ffordd yr Abaty) yn Llangollen (LL20 8SW Cyf: SJ 211 426 ///boomers.waltzed.guests). Darperir polion cerdded. Becky (Ceidwad Sir Ddinbych) a Hazel yn arwain.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Mercher, Mehefin 5ed

**Taith 1**

6 milltir (9.5 c), esgyn 1500 tr (450 m) ........ Caletach

Taith gylchol 3.5 awr o **Carrog** ar hyd Llwybr Dyffryn Dyfrdwy tuag at Moel Morfydd gyda chyfle am ginio wedyn. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 o faes parcio tafarn y Grouse (LL21 9AT Cyf: SJ 115 438 ///dare.eggshell.axed). Dim cŵn. Marian a Jan yn arwain.

**Taith 2 (Gyda'r nos)**

5 milltir (8 c), esgyn 500 tr (150 m) ........ Cymhedrol

Taith 3 awr o'r **Waun** i'r castell, ac yna ar Lwybr Clawdd Offa i Felin y Castell, ymlaen at Fron y Garth ac yn ôl drwy'r Bontfaen. Cyfarfod am 17.15 i gychwyn am 17.30 ym maes parcio (di-dâl) ger y Ganolfan Iechyd a thu ôl i westy'r Hand, oddi ar y B5070 yn y Waun. (LL14 5DH Cyf: SJ 291 378 ///acid.majority.rebounder). Dim cŵn. Val, Jeff a Betty yn arwain.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Iau, Mehefin 6ed

**Taith 1**

12.5 milltir (20 c), esgyn 2300 tr (700 m) ........ Caletach

Taith llinol 6.5 awr o **Gorwen i Langollen** ar hyd Llwybr Dyffryn Dyfrdwy gan ddefnyddio **trafnidiaeth gyhoeddus**. Cyfarfod am 8:50 yng ngorsaf fysiau Stryd y Brenin, Wrecsam i ddal bws T3 tua'r Bermo am 09:07 neu ymunwch â'r bws yn Llangollen am 9:30. Cychwynir y daith o faes parcio Lôn Werdd, Corwen am 10:00 neu pan gyrhaeddir y bws (LL21 0DN Cyf: SJ 080 435 ///broadcast.warblers.zoomed). Dim cŵn. Andy ac Osian yn arwain.

**Taith 2 (Gyda'r nos)**

4 milltir (6.5 c), esgyn 180 tr (55 m) ........ Haws

Taith 2.5 awr o'r **Hôb** gan ddilyn yr afon Alun tua'r gogledd, o amgylch llyn Parc y Gorffennol. Cyfarfod am 17.45 i gychwyn am 18.00 o faes parcio di-dâl gyferbyn â'r Ganolfan Iechyd newydd ar Lôn Penarlag (A550) yn yr Hôb (LL12 9PG Cyf: SJ 309 579 ///exclusive.this.gardens). Dim cŵn. Hazel ac Alwyn yn arwain.



## Dydd Gwener, Mehefin 7fed

**Taith 1**

8 milltir (13 c), esgyn 1380 tr (420 m) ........ Caletach

Taith 4.5 awr o **Plymog ger Llanferres** ar hyd llwybrau a thraciau i Lanarmon yn Iâl ac yna esgyn yn serth i Garreg Lwyd i ymuno â Llwybr Clawdd Offa, ac yna i lawr at Ben yr Allt ac yn ôl i Plymog. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 yn yr arosfan fawr ar A494 tua 0.5 milltir i'r de o Lanferres (CH7 5ST Cyf: SJ 187 597 ///hillsides.encrusted.blackbird). Dim cŵn. Roy a Chris yn arwain.

**Taith 2 (Prynhawn)**

4 milltir (6.5 c), esgyn 325 tr (100 m) ........ Haws

Taith 2 awr o amgylch **Parc Gwledig Erddig, Wrecsam**. Cyfarfod am 13.15 i gychwyn am 13.30 o faes parcio mawr di-dâl gyferbyn â Bookers yn Felin Puleston ar Ffordd Rhiwabon, Wrecsam (LL13 7RF Cyf: SJ 326 494 ///explain.pinks.lawfully). Dim cŵn. Jenny R a Geoff yn arwain.

**Taith 3 (Gyda'r nos)**

6 milltir (9.6 c), esgyn 1625 tr (496 m) ........ Caletach

Taith 3.5 awr o **Langollen** drwy Goedwig Dinbren at Lwybr Clawdd Offa ac yna i fyny drwy'r creigiau wrth Eglwyseg. Cyfarfod am 17.15 i gychwyn am 17.30 gyferbyn â gwesty'r Bridge End ar Stryd y Felin, Llangollen (LL20 8RY Cyf: SJ 215 422 ///searcher.perused.spindles). Dim cŵn. Bill a Dermot yn arwain.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com

## Dydd Sadwrn, Mehefin 8fed

**Taith 1**

10 milltir (16 c), esgyn 2330 tr (710 m) ........ Caletach

Taith gylchol 5 awr o **Glyndyfrdwy** ar hyd Llwybr Dyffryn Dyfrdwy i Carrog a Llidiart y Parc cyn esgyn i'r hen chwareli islaw Moel Fferna ac yna disgyn y ôl i'r man cychwyn. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 o'r arosfan fawr ochr dde i'r A5, 5 milltir i'r gorllewin o Langollen a chyn cyrraedd Glyndyfrdwy (LL21 9HT Cyf: SJ 154 426 ///roofer.shadow.spearhead). Dim cŵn. Andy a John W yn arwain.

**Taith 2 (Gyda'r nos)**

4-5 milltir (7-8 c), esgyn 500 tr (150 m) ........ Cymhedrol

Taith gylchol 2.5-3 awr o **Rhosllanerchrugog** ar hyd lonydd a chyn rheilffyrdd a llwybrau, dros camfeydd a thrwy gaeau tuag at Llwyneinion, ac ymlaen i Bronwylfa gan ddychwelyd heibio Cronfa Ddŵr Tŷ Mawr. Cyfarfod am 17.15 i gychwyn am 17.30 wrth dafarn y Sun, Rhosllanerchrugog (LL14 2LG Cyf: SJ 289 468 ///romantics.slang.tile). Dim cŵn. Rob a Barbara yn arwain.

## Dydd Sul, Mehefin 9fed

**Taith 1**

7 milltir (11.5 c), esgyn 1200 tr (365 m) ........ Caletach

Taith gylchol 4 awr o Barc Gwledig Dyfroedd Alun i **Fynydd yr Hôb** heibio Abermorddu a Bryn Iorcyn gan ddychwelyd ar hyd lonydd gwledig a thir amaeth drwy'r Cymau a thros Bryn Gwyntog. Cyfarfod am 10.15 i gychwyn am 10.30 o Ganolfan Ymweld Dyfroedd Alun (£1 am barcio) (LL11 4AG Cyf: SJ 319 547 ///grafted.surround.teamed). Dim cŵn. Roger, Rob a Barbara yn arwain.

**Taith 2 (Prynhawn)**

5 milltir (8 c), esgyn 500 tr (150 m) ........ Cymhedrol

Taith 2-2.5 awr o amgylch **Dyffryn Clywedog i Felin y Nant** ar hyd lonydd a llwybrau ar ochr Coedpoeth i'r afon tuag at ei darddiad, ac yna o gwmpas Chwarel y Mwynglawdd, drwy New Brighton a'r Wern cyn dychwelyd ar Lwybr Clywedog. Cyfarfod am 13.45 i gychwyn am 14.00 o faes parcio Melin y Nant (£1 i barcio) (LL11 3BT Cyf: SJ 289 501 ///offshore.blunt.unleashed). Dim cŵn. John I a Geoff yn arwain.

**Taith 3 (Taith Gyda'r Nos, yr un fath a'r Sul flaenorol)** ........ Hawdd

Taith gylch hamddenol o gwmpas **Wrecsam** i brofi hanes y ddinas. Ceir manylion yn adran teithiau dydd Sul, Mehefin 2ail. Dim cŵn. Roz a Jenny C yn arwain.

www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com www.walksinwrexham.com



Bras amcan yw pellteroedd ac amseriadau'r teithiau cerdded. Efallai y bydd angen i arweinwyr newid teithiau ar ôl ystyried maint y grŵp, y tywydd neu newid mewn amgylchiadau eraill.

Mae'r teithiau wedi ei graddio.

- Bydd teithiau caled yn 6 milltir neu fwy, yn croesi tir garw, yn dringo camfeydd ac yn aml yn cynnwys sawl esgyniad rhai ohonynt yn serth,ac felly mae angen lefel ffitrwydd da.
- Bydd teithiau cymhedrol yn fyrach, yn croesi peth tir garw, yn cynnwys rhai esgyniadau ac weithiau rhai camfeydd.

Arweinir pob taith gan wirfoddolwyr sydd yn arweinwyr cerdded hyfforddedig.

Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded a dillad addas a dylir cario bwyd a diod ar gyfer y teithiau hirach.

Gan bydd y teithiau yn croesi caeau sy'n cynnwys defaid ac anifeiliaid pori eraill, ni chaniateir cŵn.